## CYNGOR CAERDYDD

# DATGANIAD POLISI CYFLE CYFARTAL

## DIBEN

1. Mae'r Datganiad Polisi Cyfle Cyfartal yn nodi ymrwymiad Cyngor Caerdydd i hyrwyddo cyfle cyfartal ac amrywiaeth mewn cyflogaeth ac wrth ddarparu gwasanaethau.

2. Mae'n dangos bod cyfle cyfartal yn ganolog i werthoedd Cyngor Caerdydd ac wrth ddarparu gwasanaethau; mae'n rhan o'r gwaith o brif ffrydio cydraddoldeb o fewn y Cyngor.

3 Mae'n dangos bod Cyngor Caerdydd yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac na ddylid trin unrhyw ymgeisydd swydd, cyflogai na defnyddiwr gwasanaeth yn llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, hunaniaeth rhywedd/ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol na'r Gymraeg.

4. Mae'n nodi ymrwymiad clir i weithio i ddileu gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol, aflonyddu ac erledigaeth, i hyrwyddo cyfle cyfartal a datblygu perthynas dda rhwng pobl o wahanol grwpiau.

5. Mae'r Datganiad Polisi hwn yn cefnogi Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor, sy'n nodi sut yr ydym yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

## CWMPAS

6. Mae'r Datganiad Polisi yn berthnasol i holl gyflogeion y Cyngor ac Aelodau Etholedig. Caiff ei gymeradwyo i Gyrff Llywodraethu Ysgolion hefyd.

## EGWYDDORION ALLWEDDOL

7. Nod y Datganiad Polisi yw sicrhau bod Cyngor Caerdydd yn sefydliad sy'n gweld gwerth mewn amrywiaeth gan gymryd camau i gael gwared ar wahaniaethu a meithrin perthnasau da. Caiff hyn ei gyflawni drwy hyrwyddo cydraddoldeb yn holl weithgareddau'r Cyngor. Mae'r Datganiad Polisi hwn yn sail i'r holl bolisïau, strategaethau a chynlluniau ac mae'n cysylltu'n uniongyrchol â Chynllun Cydraddoldeb y Cyngor.

## DATGANIAD POLISI

8. Mae Cyngor Caerdydd yn credu mewn creu cymdeithas deg, cyfiawn a chynhwysol. Fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau, ni fyddwn yn gwahaniaethu yn erbyn pobl ar sail oedran, anabledd, hunaniaeth rhywedd/ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol na'r Gymraeg.

9. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwasanaethau yn berthnasol ac yn ymateb i anghenion yr holl gymunedau. Rydym yn cydnabod bod gan bob aelod o'r gymuned anghenion penodol y byddwn yn ymdrechu i'w diwallu.

10. Rydym yn gweld gwerth ym mhob aelod o'r gymuned a byddwn yn trin pobl ag urddas a pharch. Ni fyddwn yn caniatáu gwahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth yn erbyn ein defnyddwyr gwasanaethau neu gymunedau.

11. Byddwn yn sicrhau bod ein contractwyr, ac eraill sy'n darparu ein gwasanaethau, yn rhannu'r un gwerthoedd.

12. Byddwn yn gweithio'n agos â phobl leol, grwpiau gwirfoddol a chymunedol a phartneriaid eraill i adeiladu lle parchus y gallwn oll fyw a gweithio ynddo.

13. Rydym yn cydnabod ein bod yn gweithio mewn cymuned amrywiol ac rydym yn deall y pwysigrwydd o sefydlu gweithlu amrywiol. Byddwn yn sicrhau bod ein harferion recriwtio yn deg a chyson.

14. Byddwn yn datblygu ein cyflogeion drwy weld gwerth yn eu hamryfal sgiliau a phrofiadau; drwy fuddsoddi mewn dysgu a datblygu; drwy drin cyflogeion yn deg; drwy frwydro yn erbyn aflonyddu, gwahaniaethu ac erledigaeth yn y gweithle; a thrwy annog diwylliant sy'n gweld gwerth yn y gwahaniaethau rhyngom.

15. Yn gryno, mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i sicrhau'r canlynol:

- mae'r gwasanaethau a ddarparwn yn diwallu anghenion defnyddwyr ein gwasanaethau
- caiff defnyddwyr gwasanaethau a chyflogeion eu trin ag urddas a pharch
- ni chaniateir gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth
- mae cydraddoldeb yn dod yn rhan o bopeth a wnawn.

## CYFRIFOLDEB

16. Cyfrifoldeb y Prif Weithredwr a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol yw rhoi'r Datganiad Polisi hwn ar waith a sicrhau y caiff cydraddoldeb ei brif ffrydio drwy Gyngor Caerdydd i gyd.

17. Cyfrifoldeb rheolwyr, ar bob lefel yn y sefydliad, yw mynd ati'n frwd i hyrwyddo cydraddoldeb, cael gwared â gwahaniaethu a meithrin perthnasau da rhwng gwahanol grwpiau yn y gweithle ac wrth ddarparu gwasanaethau.

18. Cyfrifoldeb cyflogeion, ar bobl lefel yn y sefydliad, yw dilyn egwyddorion y polisi hwn; mae gennym oll rôl bwysig i'w chwarae yn y gwaith o sicrhau bod Cyngor Caerdydd yn gwireddu ei ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth.

19. Cyfrifoldeb cyflogeion yw sicrhau y cyflawnir asesiadau o effaith ar gydraddoldeb mewn cysylltiad â'r holl bolisïau, arferion a swyddogaethau newydd fel eu bod yn bodloni egwyddorion y polisi hwn.

20. Mae'r holl gyflogeion yn gallu cael gafael ar y 'Llawlyfr Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth Cyflogeion'. Mae'r llawlyfr yn cynnig rhagor o wybodaeth ar gyfrifoldebau cyflogeion o ran cael gwared â gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb.

21. Lle caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu gan sefydliadau neu gyflenwyr eraill, eu cyfrifoldeb hwy yw glynu at yr egwyddorion yn y Datganiad Polisi bob amser. Gall methu â gwneud hynny arwain at ddileu contract.

## MONITRO

22. Bydd y Bwrdd Rheoli Corfforaethol yn monitro'r gwaith o roi'r polisi hwn ar waith.

23. Caiff y polisi ei adolygu'n flynyddol neu yn ôl yr angen yn sgil newidiadau o ran y ddeddfwriaeth neu arferion.

24. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Caerdydd yn amlinellu'r camau fydd yn cael eu cymryd i weithredu'r polisi hwn. Bydd y Cynllun yn cael ei adolygu bob blwyddyn a bydd adroddiad cynnydd yn cael ei greu a'i gyhoeddi.

25. Mae'r polisi'n amlinellu ymrwymiad Cyngor Caerdydd i atal gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau. Os yw cyflogai yn teimlo nad yw'r polisi'n cael ei ddilyn, dylent roi gwybod i'w rheolwr llinell. Os nad oes modd i'r rheolwr llinell datrys y mater, neu os yw'r gŵyn yn ymwneud â'r rheolwr llinell, gallwch ddefnyddio'r Polisi Datrys (Disodli'r Polisi Cwyno a'r Polisi a'r Gweithdrefn Aflonyddu).

26. Os oes gan gyflogai unrhyw gwestiwn ynŷgnl â'r polisi, dylent eu trafod gyda'u rheolwr llinell, neu gallwch ei godi gyda Thîm Cydraddoldeb y Cyngor neu'r Gwasanaethau Pobl AD.

27. Gallwch ddelio â'r materion disgyblu fydd yn deillio o'r polisi hwn gan ddefnyddio Polisi a Gweithdrefn Disgyblu'r Cyngor.

28. Os yw aelod o'r cyhoedd yn teimlo na chedwir at y polisi hwn, gall gwyno drwy Bolisi a Gweithdrefn Cwynion y Cyngor. Mae hwn ar gael drwy gysylltu â C2C (Ffôn: 2087 2088) neu'r wefan (www.caerdydd.gov.uk).

## DOGFENNAU PERTHNASOL

Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol
Llyfryn Rhwydwaith Cydraddoldeb Cyflogeion
Llawlyfr Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb ac
Amrywiaeth Polisi Datrys
Polisi a Gweithdrefn Disgyblu
Polisi Cwynion